

# Ymgyrchu digidol

Cynyddu tryloywder i bleidleiswyr

**Mehefin 2018**

**Y Comisiwn Etholiadol**

# Cynnwys

<b>Rhagair .....</b>	<b>1</b>
<b>Argymhellion allweddol.....</b>	<b>3</b>
<b>Y twf mewn ymgyrchu digidol .....</b>	<b>4</b>
<b>Ymateb i'r heriau.....</b>	<b>7</b>
1. Pwy sy'n cynnal ymgyrchoedd digidol? .....	7
2. Gwariant ar weithgarwch ymgyrchu digidol .....	10
3. Pwy sy'n talu am ymgyrchoedd digidol? .....	17
4. Gorfodi'r rheolau.....	21
<b>Crynodeb o'r argymhellion .....</b>	<b>26</b>

# Rhagair

Yn ystod y degawd diwethaf gwelwyd twf enfawr yn y defnydd o adnoddau digidol ym maes ymgyrchu gwleidyddol. Mae canfyddiadau wedi newid hefyd yn ystod y cyfnod hwnnw. I ddechrau, cafodd y cyfryngau cymdeithasol eu croesawu fel chwyldro cadarnhaol wrth ymgysylltu â phleidleiswyr ar raddfa fawr. Yn fwy diweddar, cafwyd honiadau difrifol yn ymwneud â gwybodaeth anghywir, camddefnyddio data personol ac ymyrraeth o dramor. Erbyn hyn, mae pryderon y gall ein democratiaeth fod o dan fygythiad.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn goruchwyllo'r broses o gynnal etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i sicrhau bod pleidiau ac ymgyrchwyr yn deall y cyfreithiau sy'n ymwneud ag etholiadau ac yn cydymffurfio â hwy. Rydym yn ymchwilio i achosion lle y gall troseddau fod wedi'u cyflawni. Rydym hefyd yn gwneud argymhellion ar sut y gallwn sicrhau bod ein democratiaeth yn fwy teg a thryloyw.

O ran ymgyrchu digidol, ein man cychwyn yw bod etholiadau yn dibynnu ar gyfranogiad, a dyna pam ein bod yn croesawu gwerth cadarnhaol dulliau cyfathrebu ar-lein. Mae ffyrdd newydd o gyrraedd pleidleiswyr yn beth da i bawb, a rhaid i ni ofalu nad ydym yn tansellio rhyddid barn wrth i ni fynd ati i geisio diogelu pleidleiswyr. Ond rydym hefyd yn llwyr gydnabod pryderon pobl, yr awyrgylch o ddiffyg ymddiriedaeth sy'n cael ei greu, a'r angen dybryd i fynd i'r afael â hyn.


Dyna pam, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn edrych yn fanwl ar y ffordd y defnyddiwyd ymgyrchu digidol yn ystod Refferendwm yr UE ac etholiad cyffredinol 2017. Rydym wedi ymchwilio i farn y cyhoedd er mwyn deall barn pleidleiswyr ar y materion hyn. Ac rydym wedi meddwl yn galed am y ffordd orau y gall y Comisiwn helpu i gynyddu tryloywder ac ymddiriedaeth yn ein meysydd o gyfrifoldeb.

Yr adroddiad hwn yw ffrwyth llafur y gwaith hwnnw hyd yma. Rydym yn nodi cyfres o argymhellion ar gyfer mynd ati'n ddiymdroi i wella rheolau etholiadau ac atgyfnerthu rheoliadau ariannol. Caiff y broses o ariannu gweithgareddau ymgyrchu ar-lein ei chwmpasu eisoes gan y cyfreithiau ar wariant a rhoddion etholiadol. Ond mae angen i'r cyfreithiau sicrhau bod mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gwario beth, ble a sut, a chosbau mwy llym i'r sawl sy'n torri'r rheolau.

Felly, mae'r adroddiad hwn yn galw ar i lywodraethau a seneddau'r DU fynd ati i newid y rheolau er mwyn ei gwneud hi'n haws i bleidleiswyr wybod pwy sy'n eu targedu ar-lein, a sicrhau ei bod hi'n anos ymddwyn mewn ffordd annerbyniol. Mae'r ymchwil ar farn y cyhoedd a gyhoeddwyd gennym ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn dangos lefel y pryder a'r dryswch ymhlith pleidleiswyr a'r awydd am gamau gweithredu newydd.

Rydym hefyd yn galw ar i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol chwarae eu rhan wrth drawsnewid tryloywder hysbysebion gwleidyddol digidol a dileu negeseuon nad ydynt yn cyrraedd y safonau cywir. Os bydd hyn yn annigonol, dylai llywodraethau a seneddau'r DU fod yn barod i ystyried rheoleiddio uniongyrchol.

Bydd technoleg ddigidol yn parhau i drawsnewid gweithgarwch ymgyrchu gwleidyddol ac yn parhau i esblygu. Nid yw'r adroddiad hwn yn adlewyrchu safbwyntiau terfynol y Comisiwn ar y materion hyn. Yn sicr, nid ydym yn honni bod gennym yr atebion i gyd. Rydym hefyd yn cydnabod nad oes yr un corff unigol yn gyfrifol am yr holl bryderon a godir ynghylch ymgyrchu digidol. Mae parhau i gydweithio ag eraill, megis y Comisiynydd Gwybodaeth, yn allweddol. O'n rhan ni, byddwn yn parhau i fonitro'r tueddiadau ac yn cyflwyno ein barn pan gredwn y gallwn helpu i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd.

A handwritten signature in black ink that reads "John G. Holmes". The signature is written in a cursive style with a large, looped initial 'J'.

**Syr John Holmes**  
**Cadeirydd**

# Argymhellion allweddol

Gall darllenwyr ddod o hyd i'n rhestr lawn o argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Rydym wedi nodi ein hargymhellion allweddol yma ar y dechrau. Mae'r argymhellion hyn yn bwysig gan y byddant yn helpu i sicrhau bod pleidleiswyr yn y DU yn hyderus bod ymgyrchoedd digidol yn cydymffurfio â rheolau etholiadau a refferenda yn y DU.

Byddant yn cynyddu tryloywder ymgyrchoedd digidol. Byddant yn helpu i atal ymgyrchoedd etholiadau a refferenda rhag cael eu hariannu o dramor. A byddant yn rhoi'r pŵer i ni roi dirwyon uwch i ymgyrchwyr sy'n torri'r rheolau. Bydd hyn yn fwy o rwystr i'r sawl a allai gael eu temtio i dorri'r rheolau hyn yn y dyfodol.


- Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod yn rhaid i ddeunydd digidol gynnwys argraffnod sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am yr ymgyrch a phwy grëodd y deunydd.
- Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU newid y rheolau ar gyfer adrodd ar wariant. Dylent ei gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr isrannu eu ffurflenni gwariant yn wahanol fathau o wariant. Dylai'r categorïau hyn roi mwy o wybodaeth am yr arian a gaiff ei wario ar ymgyrchoedd digidol.
- Dylai fod yn ofynnol i ymgyrchwyr ddarparu anfonebau mwy manwl ac ystyrion gan eu cyflenwyr digidol er mwyn gwella tryloywder.
- Dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol weithio gyda ni er mwyn gwella eu polisiau ar ddeunydd ymgyrchu a hysbysebion ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU.
- Dylai hysbysebion ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU sy'n ymddangos ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gael eu labelu er mwyn dangos y ffynhonnell yn glir. Dylai eu cronfeydd data ar-lein o hysbysebion gwleidyddol gydymffurfio â'r rheolau ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU.
- Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU egluro na chaniateir i sefydliadau nac unigolion o dramor wario arian ar ymgyrchoedd etholiadau na refferenda. Byddai angen iddynt ystyried sut y gallai hyn gael ei orfodi a'r effaith ar ryddid barn.
- Byddwn yn gwneud cynigion i ymgyrchwyr a phob un o lywodraethau'r DU ar sut i wella'r rheolau a'r terfynau amser ar gyfer adrodd ar wariant. Rydym am sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bleidleiswyr ac i ni yn gyflymach ar ôl ymgyrch, neu yn ystod ymgyrch.
- Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU gynyddu'r ddirwy uchaf y gellir ei rhoi i ymgyrchwyr am dorri'r rheolau, ac atgyfnerthu ein pwerau i gael gafael ar wybodaeth sydd y tu hwnt i ymchwiliad.

# Y twf mewn ymgyrchu digidol

1. Mae ymgyrchoedd da sy'n cyfathrebu â phleidleiswyr yn rhan ganolog o etholiadau a refferenda sy'n cael eu rhedeg yn dda. Pan fydd ymgyrchwyr yn egluro eu polisiau a'u barn wleidyddol yn glir, gall pleidleiswyr arfer eu hawl i bleidleisio mewn ffordd fwy ystyrlon a hyddysg.

2. Yn y DU, mae tystiolaeth yn dangos bod ymgyrchwyr yn gwneud defnydd cynyddol o ffyrdd newydd o gyfathrebu er mwyn cyrraedd pleidleiswyr. Yn benodol, maent yn aml yn defnyddio gwasanaethau hysbysebu a brynir gan gwmnïau digidol a chyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Google, YouTube, Snapchat, Twitter neu Instagram. Mae'r siart isod yn dangos bod cyfran yr arian y mae ymgyrchwyr wedi'i wario ar hysbysebion digidol wedi parhau i gynyddu yn ystod y degawd hwn.

**Siart 1: Gwariant gan ymgyrchwyr ar hysbysebion digidol fel canran o gyfanswm y gwariant ar hysbysebu**



Mae'r siart hon yn dangos y gwariant a nodwyd gan ymgyrchwyr ar eu ffurflenni gwariant statudol ar gyfer etholiadau Senedd y DU yn 2015 a 2017; etholiadau Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011 a 2016; etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2011, 2016 a 2017; a'r refferenda ar aelodaeth o'r UE yn 2016, Annibyniaeth yr Alban yn 2014 a newid system bleidleisio'r DU yn 2011.

3. Ond nid yw'r siart hon yn dangos y darlun llawn o ran hysbysebion digidol mewn etholiadau a refferenda. Dim ond data gwariant ar gyfer y llwyfannau digidol mwyaf adnabyddus a nodir, y mae ymgyrchwyr cofrestredig wedi ein hysbysu amdanynt.

4. Nid hysbysebu yw'r unig ffordd y mae ymgyrchwyr yn mynd ati i gyfathrebu â phleidleiswyr ar y cyfryngau cymdeithasol a digidol. Gall ymgyrchwyr 'hoffi', 'rhannu' a 'phostio' negeseuon am ddim, gyda'r posibilrwydd o gyrraedd cynulleidfaoedd eang.
5. Gall adnoddau ymgyrchu digidol ei gwneud hi'n haws ac yn rhatach i ymgyrchwyr dilys gyfathrebu â phleidleiswyr. Mae ymgyrchwyr sy'n rhannu eu polisiau a'u barn wleidyddol â phleidleiswyr yn arwydd o ddemocratiaeth iach. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai technegau newydd a ddefnyddir i gyrraedd pleidleiswyr arwain at lai o hyder yn uniondeb etholiadau a refferenda.
6. Gall pobl feddwl nad yw'r gyfraith yn cwmpasu technegau newydd. Gall y technegau hyn gael eu camddefnyddio hefyd. Er enghraifft, gallai fod yn haws i unigolion neu gyfundrefnau o dramor geisio dylanwadu ar bleidleiswyr ar-lein heb fod ganddynt unrhyw bresenoldeb corfforol yn y wlad. Gall ymgyrchwyr yn y DU hefyd geisio osgoi'r terfynau ar wariant drwy ymgymryd â gweithgarwch digidol cudd.
7. Mae'r twf mewn ymgyrchu digidol yn codi materion pwysig ar gyfer nifer o reoleiddwyr a sefydliadau, yn ogystal â ni. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ymchwilio i'r defnydd o ddata personol a dadansoddeg data gan ymgyrchoedd gwleidyddol, pleidiau, cwmnïau cyfryngau cymdeithasol a sefydliadau masnachol eraill. O fewn Senedd y DU, mae'r Pwyllgor Dethol ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau i ymchwilio i effaith 'newyddion ffug' ar ddemocratiaeth fodern.
8. Mae llywodraethau a deddfwyr wedi mynegi pryderon ynghylch y camddefnydd ehangach o dulliau cyfathrebu digidol mewn llawer o wledydd. Yn y DU, mae'r Prif Weinidog, Pennaeth y Gwasanaeth Diogelwch a'r Twrnai Cyffredinol wedi tynnu sylw at y risgiau y gallai llywodraethau tramor drefnu ymgyrchoedd ysbïo ac ymyrraeth seiber yn y DU. Nid yw hyn yn gyfyngedig i ymyrraeth mewn etholiadau ac mae'n rhan o ymgais ehangach i greu aflonyddwch.
9. Mae pleidleiswyr, ymgyrchwyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith wedi codi pryderon ynghylch aflonyddu, ymyrraeth a chamddefnyddio ymgyrchoedd digidol yn ystod etholiadau a refferenda diweddar yn yr Unol Daleithiau, Ffrainc, yr Almaen ac Iwerddon. Mae deddfwyr yn yr Unol Daleithiau, Ffrainc a'r DU wedi nodi cynigion ar gyfer rheoleiddio ymgyrchoedd digidol yn statudol, ac mae cwmnïau cyfryngau cymdeithasol wedi dechrau cyhoeddi eu cynigion diwygio eu hunain.
10. Mae'r pryderon hyn wedi bwydo i mewn i drafodaeth ehangach ynghylch diwygio'r rheolau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol yma yn y DU ac mewn gwledydd eraill ledled y byd. Yn sgil cyhoeddi ei phapur gwyrdd ar Ddiogelwch ar y Rhyngryd, mae Llywodraeth y DU wedi llunio ei Siarter Ddigidol – rhaglen waith i gytuno ar arferion a rheolau ar gyfer y byd ar-lein a'u rhoi ar waith. Nod y rhaglen yw sicrhau bod yr hawliau sydd gan bobl all-lein yn cael eu diogelu ar-lein. Mae hyn yn cynnwys cyfyngu ar

ledaeniad ac effaith camhysbysu y bwriedir iddo gamarwain pobl er budd gwleidyddol, personol a/neu ariannol.

## Ein rôl wrth reoleiddio ymgyrchoedd digidol

11. Rydym wedi bod yn edrych ar y risgiau a'r heriau sydd ynghlwm wrth ymgyrchoedd digidol o ran rheolau etholiadau a refferenda yn y DU. Fel rheoleiddiwr, ein prif rôl yn y maes hwn yw monitro a gorfodi rheolau ynghylch o ble y daw'r arian ar gyfer ymgyrchoedd a sut mae ymgyrchwyr yn gwario arian, gan gynnwys yr arian a gaiff ei wario ar ymgyrchoedd digidol y bwriedir iddynt ddylanwadu ar bleidleiswyr yn y DU.

12. Aethom ati i siarad â phleidiau gwleidyddol ar ôl etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2017 ac edrych ar ffurflenni gwariant ymgyrchwyr mewn etholiadau a refferenda eraill a gynhaliwyd yn ddiweddar. Rydym wedi siarad â'r prif gwmnïau cyfryngau cymdeithasol sy'n gweithio yn y DU. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith ymchwil â'r cyhoedd er mwyn holi eu barn am ymgyrchoedd digidol.<sup>1</sup>

“Cafwyd cydnabyddiaeth gan rai, er y gall pobl edrych ar negeseuon ar-lein gydag amheuaeth, roedd perygl y gallai gwybodaeth heb ei wirio gael dylanwad o hyd i ryw raddau. Derbyniwyd bod natur ymgyrchoedd digidol yn ei gwneud yn anodd i ddarganfod ffynhonnell ar gyfer yr holl ddeunyddiau a dderbyniant.”

### **GfK, *Political finance regulation and digital campaigning: a public perspective***

13. Rydym yn helpu ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r rheolau ac rydym yn mynd ati i weithredu os cânt eu torri. Fodd bynnag, rydym hefyd am sicrhau bod gan bleidleiswyr hyder yn y rheolau sy'n ymwneud â chyllid gwleidyddol mewn oes ddigidol.

14. Mae ein gwaith cynnar yn y maes hwn wedi canolbwyntio ar nodi'r heriau pwysicaf sy'n wynebu rheolau cyllido a gwariant ar gyfer ymgyrchoedd digidol etholiadau a refferenda yn y DU. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi ein syniadaeth gyfredol a'n hawgrymiadau cyntaf ynghylch sut y dylai'r DU ddechrau ymateb i'r heriau sydd ynghlwm wrth ymgyrchu digidol.

15. Mae Senedd y DU wedi gofyn i ni adrodd ar etholiadau a refferenda, adolygu cyfraith etholiadol ac argymhell newidiadau os credwn fod angen eu cyflwyno. Mae Senedd a Llywodraeth yr Alban yn gyfrifol am etholiadau a gynhelir yn yr Alban yn unig. Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am etholiadau a gynhelir yng Nghymru yn unig. Rydym yn gweithio gyda phob llywodraeth berthnasol ar y newidiadau i gyfraith etholiadol y maent yn gyfrifol amdanynt. Dyna pam bod rhai o'n hargymhellion yn berthnasol i bob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU, nid dim ond Llywodraeth a Senedd y DU.

---

<sup>1</sup> [GfK, \*Political finance regulation and digital campaigning: a public perspective\*](#) (Ebrill 2018)



# Ymateb i'r heriau

16. Edrychwn ar yr heriau sydd ynghlwm wrth ymgyrchu digidol drwy ganolbwyntio ar bedair agwedd ar gyfraith ac ymgyrchu etholiadol yn y DU. Defnyddiwn ein harbenigedd ar y rheolau sy'n berthnasol i etholiadau a refferenda yn y DU er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer newid neu eu hailddatgan. Tynnwn sylw hefyd at faterion y dylem ni ac eraill barhau i'w hystyried a'u datrys gyda'n gilydd.

## 1. Pwy sy'n cynnal ymgyrchoedd digidol?

17. Mae ymgyrchwyr yn defnyddio llwyfannau digidol i ymgyrchu yn ystod etholiad neu refferendwm. Mae'r ymgyrchwyr hyn yn amrywio o bleidiau gwleidyddol cofrestredig i ymgyrchwyr unigol. Mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol gofrestru â ni er mwyn i ymgeiswyr sefyll etholiad. Mae'n rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgyrchwyr refferendwm sydd am wario mwy na swm penodol gofrestru â ni hefyd.<sup>2</sup> Dim ond pobl sy'n byw yn y DU neu sydd wedi cofrestru i bleidleisio yma, neu sefydliadau sydd wedi'u lleoli yma, all gofrestru.

### Pwy sy'n gyfrifol am ymgyrchoedd ar-lein?

18. Mae'n rhaid i ddeunydd ymgyrchu argraffedig gynnwys gwybodaeth am bwy sy'n gyfrifol am yr ymgyrch a phwy grëodd y deunyddiau. Gall pleidleiswyr weld pwy sy'n dosbarthu'r deunydd hwn drwy edrych ar yr argraffnod arno. Mae gennym rôl yn y gwaith o sicrhau bod y rheolau hyn ynghylch cynnwys 'argraffnod' ar ddeunydd ymgyrchu yn cael eu dilyn. Ond nid ydym yn rheoleiddio'r cynnwys arall na'r dadleuon a ddefnyddir mewn deunydd ymgyrchu.

19. Efallai na fydd yn glir pwy sy'n gyfrifol am ymgyrch ar-lein gan nad yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr gynnwys argraffnod ar ddeunydd digidol. Efallai na fydd yn glir bod rhywbeth ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'i bostio gan ymgyrchydd oherwydd gall negeseuon ymddangos fel pe baent wedi'u postio gan unigolion sy'n mynegi barn bersonol.

20. Gall ymgyrchwyr brynu 'botiau' a thalu pobl i ledaenu eu negeseuon ymgyrchu, ac mae hyn yn gamarweiniol os na all pleidleiswyr weld bod hyn wedi digwydd.

---

<sup>2</sup> Mae'n rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gofrestru os ydynt yn bwriadu gwario mwy nag £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ar etholiad cyffredinol Senedd y DU. Roedd yn rhaid i'r sawl a fu'n ymgyrchu yn ystod refferendwm yr UE yn 2016 gofrestru os oeddent am wario mwy na £10,000.

21. Rhaglen feddalwedd awtomataidd yw bot sy'n dynwared ymddygiad dynol ar y cyfryngau cymdeithasol drwy bostio, hoffi a siarad â phobl go iawn. 'Trôl' yw person go iawn sy'n treulio amser ar wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol yn postio negeseuon cynhennus neu amherthnasol a gwneud sylwadau er mwyn cythruddo pobl eraill.

22. Gall sefydliadau neu unigolion greu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol 'ffug'. Maent yn esgus mai cyfrifon pobl go iawn ydynt ac yn ceisio dylanwadu ar farn drwy bostio negeseuon neu hoffi a rhannu negeseuon pobl eraill.

23. Weithiau mae ymgyrchwyr mewn gwledydd eraill yn talu trôls i ledaenu eu negeseuon ac ymosod ar eu gwrthwynebwyr.

24. Mae'r wasg wedi rhoi sylw i achosion lle mae'r pleidiau sydd mewn grym mewn gwledydd eraill wedi defnyddio botiau a chyfrifon ffug ac wedi talu trôls i 'dynnu sylw' at eu negeseuon ymgyrchu pan maent yn sefyll i gael eu hailethol. Mae'n ymddangos wedyn fel pe bai ganddynt gefnogaeth ar lawr gwlad – ffenomen a elwir yn 'astroturfing'. Nod hyn yw rhoi'r argraff bod ymgyrch yn un boblogaidd. Ond nid yw'r gefnogaeth yn ddilys gan nad yw wedi dod oddi wrth bobl go iawn. Y blaid sydd wedi creu'r gefnogaeth honno ac wedi talu arian amdani.

25. Mae sawl prosiect ymchwil academaidd wedi ystyried y defnydd a wnaed o fotiau a chyfrifon ffug i dynnu sylw at negeseuon ymgyrchu ar Twitter yn ystod refferendwm yr UE a'r ymgyrchoedd a gynhaliwyd yn ystod etholiad yr UD yn 2016. Er iddynt nodi bod rhwydweithiau o fotiau a chyfrifon ffug ar waith yn ystod yr ymgyrchoedd hyn ac ar ôl hynny, nid yw'n glir pa effaith a gawsant ar y canlyniad, os o gwbl.

26. Nid ydym yn credu bod unrhyw beth o'i le ar ymgyrchwyr yn defnyddio botiau i bostio negeseuon yn hysbysu pleidleiswyr am eu polisiau a'u barn wleidyddol. Ond dylai fod yn glir pwy sy'n gwneud hynny. Yn yr un modd, nid ydym yn credu bod unrhyw beth o'i le ar ymgyrchwyr yn dweud wrth eu staff am bostio negeseuon ymgyrchu. Ond mae'r mathau hyn o ymgyrchu yn broblem os cânt eu defnyddio i dwyllo pleidleiswyr ynglŷn â phwy yw ymgyrchydd neu lefel wirioneddol y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi, neu os cânt eu defnyddio i gam-drin pobl.

### **Argraffnodau ar ddeunydd digidol**

27. Rydym wedi bod yn argymhell ers 2003 y dylai deunydd ymgyrchu ar-lein gynnwys argraffnod. Wedyn, byddai ymgyrchwyr yn gorfod nodi pwy ydynt er mwyn sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n ymgyrchu. Ar hyn o bryd, rydym yn cynghori ymgyrchwyr i gynnwys argraffnod, er nad yw hynny'n ofynnol o dan y gyfraith.

28. Gallai hyn gynnwys negeseuon a gaiff eu postio gan fotiau a thrôls sy'n cael eu talu. Er y gellir postio negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhad ac am ddim, mae'n costio arian i gyflogi pobl a phrynu botiau. Mae'r costau hyn yn cyfrif tuag at derfyn gwariant ymgyrchydd ar gyfer etholiad neu

refferendwm. Byddai ymgyrchydd nad yw'n cynnwys argraffnod yn wynebu'r risg o gael dirwy.

29. Byddai cynnwys argraffnodau ar negeseuon ymgyrchu digidol yn ein helpu hefyd i orfodi'r rheolau ar wariant, gan y byddai gennym syniad gwell o bwy ddylai gofrestru a chyflwyno ffurflen gwariant ar ôl etholiad neu refferendwm.

30. Roedd hi'n ofynnol i ddeunydd digidol gynnwys argraffnod ar gyfer y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban. Gweithiodd hynny'n dda ar y cyfan. Cafwyd rhai cwestiynau ynghylch y mathau o ddeunydd digidol yr oedd y gyfraith yn gymwys iddynt, gan gynnwys barn bersonol. Gallwn ddysgu o'r profiad hwn wrth ystyried unrhyw ofyniad newydd.

31. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn ymgynghori ar p'un a ddylid newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod yn rhaid i ddeunydd digidol gynnwys argraffnod. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn gyfle da i glywed barn ymgyrchwyr ac eraill ynghylch sut y gallai'r rheolau newydd weithio.



**Argymhelliad 1: Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod yn rhaid i ddeunydd digidol gynnwys argraffnod sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am yr ymgyrch a phwy grëodd y deunydd.**

## Gwirionedd deunydd ymgyrchu digidol a newyddion

32. Un o'r prif bryderon ynghylch gwybodaeth ar-lein yw p'un a yw'n wir. Yn ystod ymgyrchoedd ar gyfer etholiadau a refferenda, mae a wnelo'r pryder hwn â chynnwys deunydd ymgyrchu digidol a'r newyddion sy'n ymddangos ar ffrydiau cyfryngau cymdeithasol pleidleiswyr. Roedd newyddion ffug yn destun pryder sylweddol yn ystod etholiad arlywyddol yr UD ac wedi hynny.

33. Dangosodd yr ymchwiliad a wnaed gennym ag aelodau o'r cyhoedd eu bod yn ymddiried llai mewn deunyddiau ar-lein. Roeddent hefyd yn pryderu am gynnwys a ffynhonnell y deunydd hwnnw. Roeddent o'r farn bod y rhyngwyd yn rhoi mwy o gyfle i ffynonellau llai credadwy gamarwain pobl a lledaenu gwybodaeth ffug. Yn eu barn hwy, roedd newyddion ffug yn amrywio o straeon cwbl ffug i newyddion go iawn a oedd yn cael eu hystumio i gyd-fynd ag agenda wleidyddol.

34. Nid ydym mewn sefyllfa i fonitro faint o wirionedd sydd i honiadau ymgyrchoedd, ar-lein neu fel arall. Fodd bynnag, drwy newid y gyfraith i'w gwneud yn ofynnol i ddeunydd digidol gynnwys argraffnod, bydd modd i bleidleiswyr asesu pa mor gredadwy yw negeseuon ymgyrchu. Bydd pleidleiswyr wedyn yn gwybod pwy yw'r ffynhonnell ac mewn sefyllfa well i benderfynu pa mor gredadwy ydyw.

## Rolau eraill

35. Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i honiadau a wneir mewn deunydd ymgyrchu ddweud y gwir na bod yn ffeithiol gywir. Ond mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau anwir am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd. Ni ddylai deunydd ymgyrchu gymell eraill i gyflawni troseddau. Mae'r heddlu yn ymchwilio i honiadau o'r fath.

36. Gall Awdurdod Ystadegau'r DU gwyno wrth ymgyrchwyr os yw'n credu eu bod wedi camddefnyddio ystadegau swyddogol yn eu deunydd ymgyrchu. Mae'r Awdurdod Safonau Hysbysebu yn goruchwilio hysbysebion ymgyrchu mewn perthynas â rhai pynciau gwleidyddol, ond nid oes ganddo rôl i'w chwarae mewn ymgyrchoedd etholiadau neu refferenda.

37. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ymchwiliad i ymddygiad bygythiol mewn bywyd cyhoeddus<sup>3</sup>, ac argymhellodd y dylai pleidiau gwleidyddol lunio codau ymddygiad ar gyfer ymddygiad bygythiol. Credwn y dylai ymgyrchwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb hefyd dros dôn eu dadleuon a'r honiadau a wneir ganddynt yn eu deunydd ymgyrchu.

38. Y Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gyfrifol am y rheolau hynny sy'n ymwneud â'r ffordd y mae sefydliadau yn y DU yn defnyddio data personol. Mae'n ystyried sut mae ymgyrchwyr, cwmnïau cyfryngau cymdeithasol ac eraill yn defnyddio data personol at ddibenion gwleidyddol.

39. Disgwylir i'r Comisiynydd Gwybodaeth gyhoeddi adroddiad ar p'un a oes angen i ymgyrchwyr newid y ffordd y maent yn defnyddio data personol pleidleiswyr yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd i roi canllawiau i ymgyrchwyr i'w helpu i wneud unrhyw newidiadau.

## 2. Gwariant ar weithgarwch ymgyrchu digidol

40. Mae cyfraith etholiadol y DU yn gosod terfynau ar faint o arian y gall ymgyrchwyr ei wario ar weithgarwch ymgyrchu yn ystod y 'cyfnod a reoleiddir' cyn etholiadau a refferenda. Y cyfnod a reoleiddir yw'r cyfnod pan fydd y rheolau ar wariant yn gymwys. Mae'r arian a gaiff ei wario ar weithgarwch ymgyrchu digidol a gynhelir yn ystod y cyfnod hwnnw yn cyfrif tuag at derfynau gwariant ymgyrchwyr. Er enghraifft, mae'r cyfnod a reoleiddir yn para 12 mis cyn etholiad Senedd y DU a phedwar mis cyn etholiad Senedd yr Alban. Y cyfnod a reoleiddir cyn refferendwm yr UE oedd 10 wythnos.

41. Mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol cofrestredig, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgyrchwyr refferendwm anfon manylion eu gwariant atom ar

---

<sup>3</sup> Y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, *Intimidation in Public Life: A Review by the Committee on Standards in Public Life* (Mawrth 2018).

ôl yr etholiad neu'r refferendwm. Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gwariant i'r Swyddog Canlyniadau etholiadau lleol. Byddwn yn cyhoeddi manylion y gwariant ar ein gwefan.

## Tryloywder hysbysebion gwleidyddol digidol

42. Gall ymgyrchwyr ddefnyddio adnoddau digidol a chyfryngau cymdeithasol i gyfeirio eu negeseuon at y bobl hynny y maent yn fwyaf awyddus i'w cyrraedd. Mae ymgyrchwyr yn defnyddio'r data personol sydd ganddynt hwy a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i dargedu pleidleiswyr. Maent yn targedu pleidleiswyr yn seiliedig ar ffactorau demograffig fel oedran a rhyw, ac ar sail eu diddordebau a'u lleoliad ffisegol. Gelwir hyn yn aml yn 'ficro-targedu' gan fod ymgyrchwyr yn gallu anfon negeseuon sydd wedi'u teilwra i grwpiau penodol o bleidleiswyr yn seiliedig ar y wybodaeth hon. Gallant hefyd addasu'r negeseuon a anfonir yn gyflym iawn i gyd-fynd â'r hyn sy'n ymddangos fel pe bai'n gweithio orau gyda grwpiau neu unigolion penodol.

43. Dim ond y pleidleisiwr, yr ymgyrchydd a'r llwyfan sy'n gwybod at bwy y mae'r negeseuon wedi'u hanfon. Dim ond y cwmni a'r ymgyrchydd sy'n gwybod pam bod pleidleisiwr wedi'i dargedu a faint o arian a wariwyd ar ymgyrch penodol. Dyna pam bod y term 'hysbysebion tywyll' wedi'i ddefnyddio i ddisgrifio micro-targedu, er ei fod yn berffaith gyfreithlon.

44. Nododd pobl a gymerodd ran yn ein hymchwil ddiweddar y gallai negeseuon wedi'u targedu gan ymgyrchwyr fod yn ddefnyddiol os oedd hynny'n golygu eu bod yn cael gwybodaeth a oedd yn fwy perthnasol ac yn fwy diddorol iddynt. Ond roeddent yn pryderu am y ffordd yr oedd eu data personol wedi'u casglu a'u defnyddio. Dywedodd pobl hefyd y byddent yn pryderu am negeseuon wedi'u targedu sy'n lledaenu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.

45. Codwyd pryderon eraill ynghylch tryloywder gwariant ar hysbysebion gwleidyddol digidol a gwaith targedu cysylltiedig. Mae'r rheolau ar gyfer etholiadau yn y DU yn gosod terfynau gwariant er mwyn atal ymgyrchwyr rhag gwario cymaint yn fwy na'u gwrthwynebwyr fel y byddai hynny'n rhoi mantais annheg iddynt. Fel rhan o hyn, mae'n rhaid i ymgyrchwyr nodi faint y maent wedi'i wario ar lunio ac anfon negeseuon wedi'u targedu at bleidleiswyr drwy sianeli digidol. Mae hyn yn cynnwys negeseuon sydd wedi'u targedu at grwpiau penodol o bobl mewn etholaeth benodol.

46. Dylai pleidiau gwleidyddol adrodd ar y costau sy'n gysylltiedig â llawer o wahanol fathau o negeseuon mewn etholiadau. Ond os yw'r negeseuon yn hyrwyddo ymgeisydd penodol, gall y rheolau ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd adrodd ar gost y negeseuon hynny. Nid yw'r rheolau hyn yn gweithio'n iawn os nad yw ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn adrodd ar yr arian a gaiff ei wario ganddynt ar negeseuon wedi'u targedu yn erbyn y terfyn cywir.

47. Rydym am gadarnhau bod ymgyrchwyr wedi adrodd yn gywir ar yr arian y maent yn ei wario yn erbyn y terfyn cywir. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr gynnwys argraffnod ar eu holl ddeunydd ymgyrchu digidol.

### **Anfonebau manylach**

48. Byddai'n ddefnyddiol pe bai anfonebau ymgyrchwyr yn dangos manylion y grwpiau o bobl y gwnaethant eu targedu â hysbysebion digidol. Er bod yn rhaid darparu anfoneb ar gyfer unrhyw wariant sy'n fwy na £200, nid yw'r gyfraith yn nodi pa mor fanwl y dylai'r anfoneb fod.

49. Prin iawn yw'r manylion a geir ar rai anfonebau ac mae hynny'n golygu ei bod hi'n anodd os nad yn amhosibl gwybod ar beth y gwariwyd yr arian a ble. Er enghraifft, mae ymgyrchwyr wedi rhoi anfonebau i ni gan Facebook sydd ond yn dweud "ymgyrch 1, ymgyrch 2". Fodd bynnag, mae ymgyrchwyr eraill wedi darparu anfonebau mwy manwl ac ystyrllon. Mae eu hanfonebau yn dangos testun y negeseuon ymgyrchu a anfonwyd at bleidleiswyr neu wybodaeth am y rhan o'r wlad a dargedwyd.

50. Dylai fod yn ofynnol i ymgyrchwyr ddarparu anfonebau gan gyflenwyr sy'n cynnwys gwybodaeth fwy ystyrllon am fanylion eu hymgyrchoedd. Dylent gynnwys y negeseuon a ddefnyddiwyd yn yr ymgyrchoedd hynny, y rhannau o'r wlad a dargedwyd a faint o arian a wariwyd ar bob ymgyrch.



**Argymhelliad 2: Dylai fod yn ofynnol i ymgyrchwyr ddarparu anfonebau mwy manwl ac ystyrllon gan eu cyflenwyr digidol er mwyn gwella tryloywder.**

### **Diwygio'r categorïau gwariant**

51. Caiff gwariant ar weithgarwch ymgyrchu ei ddatgan i ni o dan categorïau cyffredinol fel 'hysbysebu'. Nid oes unrhyw gategori cyfreithiol penodol ar gyfer ymgyrchu digidol. Gallwn weld o'n cofnodion bod gwahanol ymgyrchwyr wedi'i ddatgan o dan categorïau gwariant gwahanol, ond 'hysbysebu' yn bennaf.

52. Ar ôl etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2015, gwnaethom argymell y dylid diwygio categorïau gwariant er mwyn rhoi gwybodaeth fwy defnyddiol am yr hyn y mae ymgyrchwyr wedi gwario arian arno. Nid yw'r argymhelliad hwn wedi'i roi ar waith hyd yn hyn, ond byddai'n adnodd ychwanegol gwerthfawr i olrhain a chadarnhau faint sy'n cael ei wario ar ymgyrchu digidol.

53. Credwn y gallai fod yn rhy syml i ychwanegu categori 'digidol' newydd at y categorïau hynny sy'n bodoli eisoes. Mae'r categorïau sy'n bodoli eisoes yn canolbwyntio ar y gwahanol ddulliau o gyfathrebu â phleidleiswyr, gan gynnwys 'deunydd digymell i etholwyr' neu 'hysbysebu' neu 'ddigwyddiadau'. Pe bai categori yn cael ei gyflwyno ar gyfer 'gwariant digidol', gallai'r holl wariant hwnnw gael ei gynnwys mewn un categori mawr yn seiliedig ar y dull



cyfathrebu. Ni fyddai'r wybodaeth yn hawdd ei defnyddio ac ni fyddai'n cynyddu tryloywder.

54. Yn hytrach, byddai'n well creu is-gategoriâu i gofnodi pa gyfrwng neu fformat a ddefnyddiwyd ar gyfer y gweithgarwch. Mae angen i'r ateb fod yn ymarferol er mwyn i ymgyrchwyr adrodd ar eu gwariant. Mae angen iddo hefyd ddarparu gwybodaeth ystyrlon ar gyfer pawb sy'n ei ddefnyddio.



**Argymhelliad 3: Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU newid y rheolau ar gyfer adrodd ar wariant. Dylent ei gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr isrannu eu ffurflenni gwariant yn wahanol fathau o wariant. Dylai'r categorïau hyn roi mwy o wybodaeth am yr arian a gaiff ei wario ar ymgyrchoedd digidol.**

### **Cronfeydd data o hysbysebion gwleidyddol**

55. Mae cwmnïau cyfryngau cymdeithasol wedi dechrau nodi sut y gallent wneud hysbysebion gwleidyddol yn fwy tryloyw. Mae Facebook, Google a Twitter wedi dweud y byddant yn sicrhau bod ymgyrchwyr sy'n eu talu i ddangos hysbysebion gwleidyddol yn cynnwys labeli i ddangos pwy sydd wedi talu am yr hysbysebion hynny.

56. Maent hefyd wedi dweud eu bod yn bwriadu cyhoeddi eu cronfeydd data eu hunain o hysbysebion gwleidyddol y maent wedi cael eu talu i'w dangos ar-lein. Bydd y cronfeydd data hyn yn cynnwys gwybodaeth am dargedu, cyrhaeddiad gwirioneddol a'r arian a wariwyd ar yr hysbysebion hynny.

57. Nod y cwmnïau hyn yw cyhoeddi eu cronfeydd data yn barod ar gyfer yr etholiadau canol tymor a gynhelir yn yr Unol Daleithiau ym mis Tachwedd 2018. Aeth rhai ohonynt ati hefyd i gyhoeddi data cyn y refferendwm a gynhaliwyd yn Iwerddon ym mis Mai 2018. Mae Facebook wedi dweud ei fod yn bwriadu cyhoeddi data tebyg cyn yr etholiadau lleol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mis Mai 2019.

58. Mae prosiect '*Who targets me?*' yn brosiect a arweinir gan ddinasyddion a sefydlwyd gan Sam Jeffers a Louis Knight-Webb ychydig cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2017. Aethant ati i greu meddalwedd y gallai pleidleiswyr ei gosod ar eu porwyr gwe a oedd yn olrhain yr hysbysebion gwleidyddol a welwyd ganddynt ar Facebook. Argymhellodd y prosiect y dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol gyhoeddi'r holl hysbysebion a ddangosir ganddynt ar wefan ganolog.

59. Mae rhai sefydliadau fel y Sefydliad Ymarferwyr Hysbysebu hefyd yn cefnogi'r syniad o greu cofrestr gyhoeddus ganolog o hysbysebion gwleidyddol ar-lein, yn hytrach na gadael y dasg honno yn nwylo'r cwmnïau cyfryngau cymdeithasol eu hunain.

60. Rydym yn croesawu bwriad pob un o'r cynigion hyn. Byddai cronfeydd data o'r fath yn sicrhau mwy o dryloywder i bleidleiswyr. Byddent hefyd yn ei gwneud yn haws i ni orfodi'r rheolau ar wariant. Byddem yn gallu gweld pa hysbysebion y mae ymgyrchydd wedi'u trefnu a faint a dalwyd amdanynt. Er enghraifft, pe baem yn gallu gweld bod rhai ymgyrchwyr yn targedu hysbysebion at yr un pleidleiswyr, gallai awgrymu eu bod yn gweithio gyda'i gilydd.

61. Disgwyliwn i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol sicrhau bod eu cronfeydd data newydd o hysbysebion gwleidyddol yn adlewyrchu'r rheolau ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU, a'u bod yn darparu gwybodaeth ystyrlon i ni ac i bleidleiswyr. Rydym am i bob un o'r prif gwmnïau cyfryngau cymdeithasol sy'n dangos hysbysebion etholiadol yn y DU sicrhau eu bod yn creu cronfeydd data o'r fath. Disgwyliwn iddynt drafod â ni p'un a allant gyhoeddi eu data yn yr un fformat.



**Argymhelliad 4: Dylai hysbysebion ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU sy'n ymddangos ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gael eu labelu er mwyn dangos y ffynhonnell yn glir. Dylai eu cronfeydd data ar-lein o hysbysebion gwleidyddol gydymffurfio â'r rheolau ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU.**

## Hysbysebion y telir amdanynt a chyrhaeddiad organig

62. Mae ymgyrchu digidol yn costio arian i ymgyrchwyr os ydynt yn talu cwmnïau fel Facebook i dargedu eu negeseuon at bleidleiswyr. Fodd bynnag, gall ymgyrchwyr hefyd ledaenu eu negeseuon am ddim drwy annog eu cefnogwyr i'w rhannu â ffrindiau a theulu. Gelwir hyn yn gyrhaeddiad 'organig'. Mae adroddiadau yn y cyfryngau yn honni i'r Blaid Lafur a Momentum wneud hyn yn effeithiol yn ystod ymgyrch etholiad cyffredinol 2017.

63. Mae'r rheolau cyfredol ar gyfer ymgyrchoedd etholiadau a refferenda yn canolbwyntio ar yr arian y mae ymgyrchwyr yn ei wario. Nid ydynt yn ymdrin â'r cyrhaeddiad organig y gall ymgyrchwyr ei ddefnyddio. Er enghraifft, byddai'r rheolau'n cwmpasu'r costau sy'n gysylltiedig â thargedu hysbyseb neu neges at gefnogwyr ar-lein ymgyrchydd. Ond ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol pe bai'r cefnogwyr hynny yn rhannu'r neges yn ehangach gyda'u cysylltiadau ar-lein. Gall hyn fod yn effeithiol iawn os yw negeseuon yn ddoniol neu'n drawiadol.

64. Gallai rhai pobl ystyried ei bod hi'n annheg os oes gan rai ymgyrchwyr fwy o gyrhaeddiad organig nag eraill, ond gallai hyn hefyd ysgogi ymgyrchwyr i ddenu mwy o gefnogwyr er mwyn ehangu eu cyrhaeddiad organig.

65. Yn hyn o beth, nid yw ymgyrchu digidol yn wahanol i ddulliau mwy traddodiadol o ymgyrchu, lle mae rhai ymgyrchwyr yn fwy effeithiol nag eraill.



Mae denu mwy o bleidleiswyr i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd etholiadau a refferenda yn beth da i'r ymgyrchoedd hynny ac i ddemocratiaeth ynddo'i hun, yn ein barn ni.

66. Lluniwyd y rheolau cyfredol yn 2000. Bryd hynny, roedd hi'n anoddach i ledaenu negeseuon yn eang ac yn rhad drwy gyrhaeddiad organig. Erbyn hyn, mae ymgyrchwyr yn dibynnu llai ar wario arian ar hysbysebion y telir amdanynt er mwyn cyrraedd rhai pleidleiswyr yn uniongyrchol, ond mae angen arian arnynt o hyd er mwyn creu a rheoli cronfeydd data o gefnogwyr a thargedu'r negeseuon a all ddatblygu cyrhaeddiad organig.

## Gwariant heb ei reoleiddio ar staffio

67. Nid yw'r arian y mae pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr refferendwm yn ei dalu i staff a gyflogir ganddynt yn uniongyrchol i weithio ar eu hymgyrchoedd etholiadau a refferenda yn cyfrif tuag at eu terfynau gwariant, ond mae'n cyfrif tuag at derfynau gwariant ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgeiswyr.

68. Cynhaliwyd cyfarfodydd â sawl plaid wleidyddol ac ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid ar ôl etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2017 i drafod sut y gwnaethant ddefnyddio ymgyrchu digidol a'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'u hymgyrchoedd. Dywedodd pob un ohonynt fod ganddynt eu staff parhaol eu hunain yn gweithio ar eu hymgyrchoedd digidol, ac aeth pob un ohonynt ati i gyflogi staff ychwanegol neu ymgynghorwyr ar gyfer yr etholiad. Dywedodd pob un o'r pleidiau wrthym fod yr agwedd ddigidol yn rhan fwyfwy pwysig o'u hymgyrchoedd.

69. Ers 2013, rydym wedi argymhell y dylai'r costau yr eir iddynt wrth gyflogi staff i weithio ar ymgyrchoedd etholiadau a refferenda gyfrif tuag at derfynau gwariant pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr refferendwm. Byddai hyn yn mynd i'r afael â bwch amlwg ac anghysondeb yn y rheolau sy'n caniatáu i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr refferendwm wario symiau mawr o arian o bosibl ar weithgarwch ymgyrchu heb fod angen iddynt eu datgelu. Byddai'r symiau y mae ymgyrchwyr yn eu gwario ar ymgyrchu digidol yn fwy tryloyw hefyd.



**Argymhelliad 5: Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU newid y gyfraith fel bod costau staff sy'n gysylltiedig ag ymgyrch yn cael eu cynnwys yn y terfynau ar wariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol mewn etholiadau a refferenda.**

## Gwella dealltwriaeth am wariant a reoleiddir

70. Mae'r rheolau ar gyfer etholiadau yn y DU yn cwmpasu'r costau ymgyrchu pwysicaf, ond ymddengys fod rhai newyddiadurwyr a sylwebyddion yn ansicr ynghylch y costau a gwmpesir.

71. Mae'r rheolau'n cwmpasu'r costau yr eir iddynt wrth ddangos hysbysebion ar lwyfannau digidol neu wefannau. Maent yn cynnwys y costau yr eir iddynt wrth ddsbarthu a thargedu deunyddiau ymgyrchu digidol neu ddatblygu a defnyddio cronfeydd data ar gyfer ymgyrchu digidol. Mae hyn yn gymwys hyd yn oed os prynwyd y galedwedd neu'r feddalwedd yn wreiddiol y tu allan i'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer adrodd ar wariant.

72. Mae terfynau gwariant a rheolau ar gyfer adrodd ar wariant yn gymwys i'r arian a gaiff ei wario ar hysbysebu yn ystod ymgyrchoedd. Mae'r un rheolau'n berthnasol p'un a yw ymgyrchwyr yn defnyddio technegau hirsefydlog, megis ymgyrchoedd postio deunydd argraffedig neu fyrddau poster, neu rai mwy newydd, megis negeseuon e-bost a hysbysebion ar-lein.

### **Codau statudol ar wariant etholiadol**

73. Ar hyn o bryd, rydym yn drafftio codau ymarfer statudol ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr. Nod y codau yw rhoi enghreifftiau o'r ffordd y mae'r gyfraith yn gymwys i wahanol fathau o wariant ac egluro hynny'n well. Mae'r codau drafft yn nodi'r ffordd y dylai ymgyrchwyr roi gwybod am weithgarwch ymgyrchu digidol a'r defnydd a wneir o ddata.

74. Rydym yn paratoi'r codau hyn i'w cymeradwyo gan Senedd y DU, fel bod canllawiau statudol ar gael i ymgyrchwyr ar y ffordd y mae'r gyfraith yn gymwys i wariant etholiadol. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban hefyd wedi dangos diddordeb mewn cyflwyno codau ar gyfer etholiadau yng Nghymru a'r Alban. Y gobaith yw y caiff y codau eu cymeradwyo mewn pryd ar gyfer yr etholiadau mawr nesaf yn 2021 a 2022.

75. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y codau statudol ar wariant etholiadol yn ddiweddarach yn 2018. Anogwn ystod eang o ymatebion er mwyn gwella'r Codau drafft cyn iddynt gael eu cyflwyno i ddeddfwyr.

### **Pryd a sut rydym yn derbyn gwybodaeth am wariant**

76. Mae gan ymgyrchwyr sy'n gwario o dan £250,000 dri mis i gyflwyno eu ffurflenni gwariant i ni ar ôl etholiad neu refferendwm. Mae gan ymgyrchwyr sy'n gwario £250,000 neu fwy chwe mis i wneud hynny.

77. Mae hwn yn gyfnod hir ar ôl i'r ymgyrchoedd ddod i ben. Yn ystod y cyfnod hwn, nid oes gan bleidleiswyr unrhyw wybodaeth am faint o arian a wariwyd gan ymgyrchwyr, nac ar beth y gwariwyd yr arian hwnnw, er mwyn dylanwadu ar y canlyniad.

78. Roedd aelodau o'r cyhoedd a gymerodd ran yn ein hymchwil o'r farn ei bod hi'n rhy hwyr i gyflwyno ffurflenni gwariant ar ôl i ymgyrch ddod i ben. Roedd rhai o'r farn y dylai ymgyrchwyr adrodd ar wariant yn ystod yr ymgyrch.

79. Ar hyn o bryd, gall ymgyrchwyr ddewis cyflwyno eu ffurflenni i ni yn electronig neu ar bapur. Os derbynnir cofnodion papur, mae'n rhaid i ni ddefnyddio adnoddau mewngofnodi data sy'n arwain at oedi cyn eu cyhoeddi. Mae'n cymryd mwy o amser i ni wirio gwybodaeth ar y ffurflenni gwariant

papur a'i chroeswiro â gwybodaeth arall a ddelir gennym cyn y gallwn ei chyhoeddi.

80. Dylai pleidleiswyr allu gweld sut mae ymgyrchwyr wedi gwario eu harian cyn gynted â phosibl ar ôl etholiad neu refferendwm tra bod y mater yn gyfredol. Byddai terfynau amser cynharach i ymgyrchwyr gyflwyno eu ffurflenni gwariant yn ei gwneud yn haws i bleidleiswyr ddeall hyn. Pe bai'n rhaid i ymgyrchwyr gyflwyno cofnodion electronig i ni, byddai hefyd yn golygu y gallem nodi unrhyw broblemau posibl yn gyflymach ar ôl yr etholiad neu'r refferendwm.



**Argymhelliad 6: Byddwn yn gwneud cynigion i ymgyrchwyr a phob un o lywodraethau'r DU ar sut i wella'r rheolau a'r terfynau amser ar gyfer adrodd ar wariant. Rydym am sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bleidleiswyr ac i ni yn gyflymach ar ôl ymgyrch, neu yn ystod ymgyrch.**

## Pryd mae'r rheolau ar wariant a chyllid yn gymwys i ymgyrchwyr

81. Mae cyfraith etholiadol y DU yn gosod terfynau ar faint o arian y gall ymgyrchwyr ei wario ar weithgarwch ymgyrchu yn ystod y cyfnod a reoleiddir cyn etholiadau a refferenda.

82. Mae'r adeg pan fo'r rheolau ar wariant yn gymwys wedi amrywio ar gyfer sawl refferendwm. Ar gyfer y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban, roedd y rheolaethau ar wariant yn gymwys am 16 wythnos. Ar gyfer refferendwm yr UE, roeddent yn gymwys am 10 wythnos.

83. Roedd y cyfnod rhwng pasio'r ddeddfwriaeth ar gyfer y refferendwm a'r adeg y daeth y rheolau ar wariant i rym yn wahanol hefyd. Gall ymgyrchwyr ddefnyddio'r bwllch hwn i wario symiau mawr o arian nad ydynt yn cyfrif tuag at eu terfynau gwariant. Ceir problemau tebyg o ran pryd y daw'r rheolau ar wariant i rym a ph'un a all ymgyrchwyr ddefnyddio'r bwllch hwn i godi arian na chaiff ei gwmpasu gan y rheolau.



**Argymhelliad 7: Dylem ni a llywodraethau a deddfwrfeydd y DU ailystyried pryd y dylai'r rheolaethau ar wariant a chyllid ddod i rym cyn refferendwm.**

## 3. Pwy sy'n talu am ymgyrchoedd digidol?

84. Mae'r rheolau a luniwyd gan Senedd y DU yn golygu mai dim ond y rheini sydd â diddordeb gwirioneddol yng ngwleidyddiaeth y DU all ddefnyddio

eu harian i ddylanwadu ar bleidleiswyr. Yr unig grwpiau a all roi arian i bleidiau neu ymgyrchwyr, neu gofrestru fel ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, yw pobl sy'n byw yn y DU neu sydd wedi cofrestru i bleidleisio yma, neu sefydliadau sydd wedi'u lleoli yma. Ond mae adnoddau cyfathrebu digidol byd-eang yn herio'r rheolau hyn.

## Gwahardd gwariant o'r tu allan i'r DU

85. Mae ymgyrchwyr cofrestredig yn y DU wedi bod yn agored ynglŷn â'u defnydd o ymgyrchoedd digidol i gyrraedd pleidleiswyr. Fodd bynnag, gall unrhyw un o'r tu allan i'r DU dalu am hysbysebion ar lwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol hefyd er mwyn targedu pleidleiswyr yn y DU. Mae hyn yn golygu y gall pobl nad oes hawl ganddynt i gofrestru fel ymgyrchwyr wario arian i ddylanwadu ar bleidleiswyr yn y DU o hyd. Gallai'r arian hwn ddod o wladwriaethau tramor neu sefydliadau ac unigolion preifat.

86. Er bod egwyddor gyffredinol na chaiff arian o dramor ei ganiatáu, nid yw'r rheolau yn gwahardd gwariant o dramor yn benodol. Mae rheolau'r DU yn nodi isafswm y mae'n rhaid i bobl neu sefydliadau ei wario ar weithgarwch ymgyrchu cyn bod yn rhaid iddynt gofrestru fel ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Mae hyn yn golygu na fyddai unigolyn neu sefydliad o dramor sy'n gwario llai na'r symiau hyn wedi torri unrhyw gyfreithiau etholiadol penodol yn y DU.

87. Nod y rheolau hyn oedd lleihau'r risg y byddai ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn gwario gormod, a sicrhau mwy o dryloywder heb gyfyngu ar ryddid barn. Ar adeg llunio'r rheolau yn 2000, roedd Llywodraeth a Senedd y DU yn pryderu ynghylch rhoddion tramor i bleidiau gwleidyddol. Nid oeddent wedi ystyried y posibilrwydd y gallai ffynonellau o dramor brynu hysbysebion ymgyrchu yn uniongyrchol yn y DU.

88. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU a'r gwasanaethau diogelwch wedi nodi eu barn hwythau ynglŷn ag ymyrraeth dramor. Nodwyd ei bod hi'n debygol bod ffynonellau o dramor wedi defnyddio adnoddau digidol a chyfryngau cymdeithasol i geisio ymyrryd ac amharu ar ymgyrchoedd etholiadau a refferenda yn y DU. Mae ymchwil academiaidd hefyd wedi dechrau dangos bod ffynonellau o dramor, yn ôl pob tebyg, wedi ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn y DU.

89. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael i ni ar hyn o bryd yn awgrymu bod hyn wedi digwydd yn y DU ar yr un raddfa honedig ag a welwyd yn ystod etholiad arlywyddol yr UD yn 2016. Byddwn yn parhau i siarad â Llywodraeth y DU a'r gwasanaethau diogelwch ynglŷn ag unrhyw dystiolaeth arall a ddaw i law. Sut bynnag, mae unrhyw weithgarwch o'r fath yn annerbyniol. Mae'r Llywodraeth wedi ein hysbysu ei bod "yn effro i'r bygythiad y caiff y broses etholiadol ei thanseilio a ffyrdd eraill o geisio camddefnyddio'r broses honno neu danseilio sefydliadau democrataidd".

90. Mae Facebook, Google a Twitter wedi dweud y byddant yn rhoi rheolaethau newydd ar waith i gadarnhau bod pobl neu sefydliadau sydd am

dalw i ddangos hysbysebion gwleidyddol am etholiadau yn yr Unol Daleithiau wedi'u lleoli yno. Hoffem weld rheolaethau tebyg yn cael eu cyflwyno ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU.



**Argymhelliad 8: Dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol roi rheolaethau newydd ar waith i gadarnhau bod pobl neu sefydliadau sydd am dalu i ddangos hysbysebion gwleidyddol am etholiadau a refferenda yn y DU wedi'u lleoli yn y DU neu wedi'u cofrestru i bleidleisio yma.**

91. Byddai gosod gwaharddiad penodol ar unrhyw wariant ymgyrchu o dramor yn atgyfnerthu'r rheolau ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU ymhellach. Byddai rheolaethau'r cwmnïau digidol a chyfryngau cymdeithasol eu hunain yn un ffordd o atal arian tramor rhag cael ei wario ar hysbysebu neu hyrwyddo digidol.

92. Byddai angen i'r DU ystyried yn ofalus oblygiadau ymarferol a chyfreithiol gwahardd unrhyw wariant ymgyrchu o dramor, gan gynnwys sut y gallai gwaharddiad gael ei orfodi a'r effaith ar ryddid barn. Dylai hefyd ystyried yr effaith y byddai hynny'n ei chael ar ddinasyddion y DU sy'n byw dramor ac sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau a refferenda yn y DU, gan gynnwys newidiadau sydd wedi'u cynnig mewn Bil i Senedd y DU i alluogi unrhyw ddinesydd y DU sy'n byw dramor i gofrestru i bleidleisio yn y DU.



**Argymhelliad 9: Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU egluro na chaniateir i sefydliadau nac unigolion o dramor wario arian ar ymgyrchoedd etholiadau na refferenda. Byddai angen iddynt ystyried sut y gallai hyn gael ei orfodi a'r effaith ar ryddid barn.**

## Atal gweithgarwch ariannu gan gwmni o'r tu allan i'r DU

93. Gall cwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn y DU neu yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd ac sy'n cynnal busnes yn y DU roi neu fenthg arian i ymgyrchwyr yn y DU. Gall y cwmnïau hyn hefyd gofrestru fel ymgyrchwyr.

94. Nid oes rhaid i'r cwmnïau hyn ddangos eu bod wedi gwneud digon o arian yn y DU i'w roi neu ei fenthg i ymgyrchwyr. Mae hyn yn golygu y gallai ymgyrchwyr dderbyn arian a ddaeth yn wreiddiol o'r tu allan i'r DU. Gallai hyn gynnwys nwyddau neu wasanaethau y mae cwmnïau yn eu rhoi i ymgyrchwyr fel rhodd neu am bris gostyngol, gan gynnwys gwasanaethau ymgyrchu digidol.

95. Yn 1998 a 2011, dywedodd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus na ddylai cwmnïau o dramor allu defnyddio is-gwmnïau yn y DU at ddiben rhoi arian i ymgyrchwyr yn unig. Dylai cwmnïau ddangos eu bod wedi gwneud digon o arian yn y DU i'w roi neu ei fenthyg i ymgyrchwyr.

96. Yn 2013, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried a oedd y rheolau yn ddigon cadarn i atal ymgyrchwyr rhag defnyddio arian sy'n dod o'r tu allan i'r DU. Nodwyd gennym y dylai'r rheolau fod yn fwy cyson â'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

97. Ailadroddwyd yr argymhelliad hwn yn ein hadroddiad ar refferendwm yr UE yn 2016. Nid yw Senedd y DU wedi newid y rheolau hyn eto, ond mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn trafod y mater â ni.



**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth a Senedd y DU nodi'n glir mewn cyfraith na all ymgyrchwyr dderbyn arian gan gwmnïau nad ydynt wedi gwneud digon o arian yn y DU i ariannu swm eu rhodd neu fenthyciad.**

## Gwella rheolaethau ar roddion a benthyciadau

98. Byddai hefyd yn helpu i ystyried ffyrdd eraill o wella'r rheolaethau ar yr arian y mae ymgyrchwyr yn ei dderbyn. Mae rheolau gwyngalchu arian yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw gysylltiad amlwg rhwng arian a gweithgarwch troseddol. Cafodd y rheolau hyn eu diweddarau gan Lywodraeth y DU yn 2017.

99. Credwn y gallai rhai o'r adnoddau a ddefnyddir gan fusnesau i asesu risg a diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid gael eu hystyried hefyd fel rhan o'r rheolau ar gyfer ymgyrchwyr mewn etholiadau a refferenda yn y DU. Gallai'r mathau hyn o newidiadau helpu i sicrhau na chaiff arian tramor ei ddefnyddio ar gyfer ymgyrchoedd etholiadau a refferenda yn y DU, gan gynnwys ymgyrchoedd digidol.



**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried, ar y cyd â ni, sut y dylid gwella'r rheolaethau ar roddion a benthyciadau er mwyn atal arian tramor rhag cael ei ddefnyddio yng ngwleidyddiaeth y DU. Gellid addasu rheoliadau gwyngalchu arian diweddar er mwyn sicrhau dulliau gwell o asesu risg a diwydrwydd dyladwy.**

## Asedau a data ymgyrchwyr newydd

100. Dim ond ar ôl i ymgyrchwyr gofrestru â ni y mae'r rheolau ar roddion a benthyciadau yn gymwys iddynt. Nid yw'r rheolau yn gofyn am dryloywder



ynghylch yr arian a'r asedau y mae ymgyrchwyr yn meddu arnynt cyn iddynt gofrestru.

101. Hyd yn oed ar ôl i blaid gofrestru, gall fod 18 mis nes bod yn rhaid iddi gyflwyno ei datganiad o gyfrifon cyntaf. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol plaid newydd, ond mae'r rheolau'n golygu na fydd pleidleiswyr nac ymgyrchwyr eraill yn cael gwybod am sefyllfa ariannol gynnar ymgyrchydd. Mae hefyd yn golygu bod gennym lai o wybodaeth i gynllunio ein gwaith monitro a rheoleiddio arall a rhoi ffocws iddo.

102. Felly, yn 2013, gwnaethom argymhell y dylai pob plaid newydd gyflwyno datganiad o asedau a rhwymedigaethau sy'n werth mwy na £500 wrth gofrestru. Rydym hefyd o'r farn y dylai'r gofyniad hwn fod yn gymwys i bob ymgyrchydd refferendwm sy'n gorfod cofrestru â ni.

103. Mae setiau data a chronfeydd data yn asedau fwyfwy gwerthfawr ar gyfer cynnal ymgyrchoedd etholiadol wedi'u targedu. Dylai'r datganiad gynnwys amcangyfrif o'r costau y mae'r ymgyrchydd wedi mynd iddynt wrth brynu neu ddatblygu'r data a ddelir ganddo pan fydd yn cofrestru.



**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth a Senedd y DU newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod yn rhaid i bob plaid ac ymgyrchydd refferendwm newydd sydd ag asedau neu rwymedigaethau gwerth mwy na £500 gyflwyno datganiad o asedau a rhwymedigaethau pan fydd yn cofrestru. Dylai'r datganiad gynnwys amcangyfrif o'r costau y mae'r ymgyrchydd wedi mynd iddynt wrth brynu neu ddatblygu'r data a ddelir ganddo pan fydd yn cofrestru.**

## 4. Gorfodi'r rheolau

104. Mae cyfraith etholiadol y DU yn pennu gofynion mewn perthynas â'r broses o ariannu ymgyrchoedd etholiadau a refferenda a'r gwariant yr eir iddo. Mae methiant i gydymffurfio â'r rheolau yn drosedd. Fel rheoleiddiwr cyllid gwleidyddol, mae gennym bwerau i ymchwilio i achosion o dorri'r rheolau. Gallwn roi cosb ariannol, a elwir yn gosb sifil. Gall yr heddlu hefyd ymchwilio i achosion a amheuir o dorri'r rheolau a sicrhau y caiff achosion eu herlyn yn y llys.

### Cynyddu ein pwerau i gael gafael ar wybodaeth

105. Gall deunyddiau ymgyrchu digidol gael eu dosbarthu'n syth i gynulleidfaoedd targed mawr. Gall hyn gael effaith uniongyrchol ar ymgyrch etholiadol neu refferendwm. Felly, mae'n bwysig ein bod yn gallu ymchwilio i bryderon ynglŷn ag ymgyrch. Rydym am wneud hyn mewn 'amser real' ac ar ôl y bleidlais.

106. Mae gennym bwerau eang i gasglu tystiolaeth wrth ymchwilio i weld a oes trosedd wedi'i chyflawni eisoes. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o'r troseddau y gallwn ymchwilio iddynt â'r broses o adrodd i ni. Gall hyn ddatgelu problemau gyda gwariant neu gyllid ymgyrchydd yn ystod ymgyrch. Erbyn i ni dderbyn yr adroddiadau, mae'r ymgyrch wedi hen ddod i ben. Y dull a ffefrir gennym yw ceisio atal y rheolau rhag cael eu torri, neu unioni mater mor gyflym â phosibl. Mae ein pwerau yn fwy cyfyngedig pan fydd angen i ni wneud ymholiadau y tu hwnt i ymchwiliad.

107. Gall fod angen i ni wneud cais am wybodaeth gan gyflenwyr adnoddau ymgyrchu digidol am y cyfrif gwreiddiol, neu gallwn ofyn i bleidiau ac ymgyrchwyr ddarparu atebion cyflym i'n cwestiynau am y gweithgarwch digidol. Mae ein pwerau statudol i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu tystiolaeth yn cwmpasu pob sefydliad ac unigolyn a reoleiddir o dan y gyfraith – gan gynnwys ymgyrchwyr cofrestredig. Fodd bynnag, dim ond deunydd sy'n ymwneud ag incwm a gwariant y mae'r pwerau y gallwn eu defnyddio y tu hwnt i ymchwiliad yn ei gwmpasu. Nid yw ein pwerau yn ymestyn i drydydd partion fel cyflenwyr llwyfannau digidol.

108. Argymhellwn y dylid ehangu ein pwerau i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu dogfennau, gwybodaeth ac esboniadau y tu hwnt i ymchwiliad. Dylai fod gennym y pŵer i ofyn am wybodaeth gan unrhyw berson y gall fod ganddo ddeunydd perthnasol yn ei feddiant. Gofynnodd y Comisiynydd Gwybodaeth am bwerau tebyg yn ddiweddar a rhoddodd Senedd y DU y pwerau hynny i'w sefydliad.

109. Pe bai gennym y pŵer hwn, gallem fynnu bod cyflenwyr gwasanaethau neu lwyfannau digidol yn darparu'r wybodaeth berthnasol sydd ganddynt. Byddai'r newid hwn yn cyflymu pethau pan fyddem yn asesu pryderon a nodir gennym neu pan fyddai honiadau yn dod i law. Byddai hefyd yn ein helpu i gasglu gwybodaeth am ymgyrch sy'n cynnwys nifer o wahanol ymgyrchwyr a chyflenwyr.



**Argymhelliad 13: Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU gynyddu'r pwerau sydd gennym i gael gafael ar wybodaeth y tu hwnt i ymchwiliad.**

## Gwella ein pwerau i helpu i orfodi cyfreithiau eraill

110. Ein prif rôl yw sicrhau bod ymgyrchwyr yn cydymffurfio â'r rheolau ar gyllid gwleidyddol. Weithiau, mae gennym wybodaeth sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth â fframweithiau cyfreithiol eraill, fel y gyfraith diogelu data. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn glir p'un a allwn rannu'r wybodaeth honno â'r rheoleiddiwr neu'r corff perthnasol sy'n gorfodi'r gyfraith.

111. Mae gennym bŵer clir i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfraith etholiadol â chyrrff perthnasol. Ond rydym yn dibynnu ar bwerau sefydliadau eraill i'n galluogi i rannu gwybodaeth nad yw'n ymwneud â'n swyddogaethau



cyfreithiol. Mae'r bwllch hwn yn y pwerau sydd gennym i rannu gwybodaeth yn gymwys yn y DU a thu hwnt.

112. Yn ffodus, o ran materion diogelu data, mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) bŵer sy'n ein galluogi i ddarparu a derbyn gwybodaeth sy'n ymwneud â'i swyddogaethau. Heb hynny, ni fyddai gennym y pŵer i drosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud ag achosion o dor diogelwch data i'r ICO. Fodd bynnag, mae'r pŵer yn dibynnu arnom i benderfynu a oes angen y wybodaeth ar yr ICO er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Gallai hyn arafu ein gallu i drosglwyddo gwybodaeth berthnasol yn y dyfodol.

113. Byddai'n well gennym gael pŵer cyffredinol sy'n ein galluogi i rannu gwybodaeth â rheoleiddwyr eraill neu gyrff gorfodi'r gyfraith os credwn y byddai hynny er budd y cyhoedd. Byddai hyn yn ein galluogi i drosglwyddo gwybodaeth yn fwy rhagweithiol lle y bo angen a symleiddio ein prosesau.



**Argymhelliad 14: Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU gynyddu ein pwerau i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill pan fo hynny er budd y cyhoedd.**

## Atgyfnerthu ein pwerau i orfodi'r rheolau

114. Y ddirwy uchaf y gallwn ei rhoi am dorri rheolau'r DU ar gyllid gwleidyddol yw £20,000 am bob trosedd. Rydym wedi nodi'n flaenorol bod y swm hwn yn rhy isel. Mae ymgyrchwyr yn gwario miliynau o bunnoedd ar etholiadau a refferenda yn y DU, gan gynnwys gweithgareddau ymgyrchu digidol.

115. Rydym yn pryderu y gallai dirwy uchaf o £20,000 gael ei hystyried yn gost gwneud busnes i rai ymgyrchwyr. Nid yw'r gosb hon yn ffordd effeithiol o atal ymgyrchwyr rhag cyflawni troseddau.

116. Pan fo troseddau wedi'u cyflawni eisoes, nid yw'r gosb hon yn gymesur â'r effaith y gallai llawer o'r troseddau ei chael. Mae hyn yn arbennig o wir pan nad yw ymgyrchwyr yn bleidiau gwleidyddol sefydledig, er enghraifft yng nghyd-destun refferendwm. Gallai'r ymgyrchwyr hyn boeni llai am y niwed a wneir i'w delwedd neu eu henw da yn y dyfodol.

117. Rydym am i lywodraethau a deddfwrfeydd y DU newid y gyfraith sy'n gosod terfyn ar y ddirwy uchaf y gallwn ei rhoi. Dylid cynnal ymgynghoriad ar lefel y ddirwy. Credwn y dylai fod yn debyg i'r dirwyon a roddir gan reoleiddwyr eraill.



**Argymhelliad 15: Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU gynyddu'r ddirwy uchaf y gallwn ei rhoi i ymgyrchwyr am dorri'r rheolau.**

118. Ar hyn o bryd, dim ond yr heddlu ac erlynwyr all ymchwilio os byddant yn amau bod rheolau ymgeiswyr wedi'u torri. Yn y gorffennol, rydym wedi argymhell y dylem gael pwerau i ymchwilio i achosion o dorri'r rheolau sy'n ymwneud â gwariant a rhoddion ymgeiswyr mewn etholiadau mawr. Byddai hyn yn cyfateb â'n cyfrifoldeb am wariant a rhoddion sy'n ymwneud â phleidiau ac ymgyrchwyr eraill. Byddai'r newid hwn, a'r newidiadau eraill a argymhellwyd gennym, yn ein helpu i ganfod a yw ymgeiswyr a phleidiau yn adrodd yn gywir ar eu gwariant digidol yn erbyn eu terfynau eu hunain.



**Argymhelliad 16: Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU roi pwerau i ni ymchwilio i ymgeiswyr yr amheuir eu bod wedi torri'r rheolau ar gyfer ymgeiswyr a rhoi cosbau iddynt.**

## Yr hyn y gall cwmnïau digidol a chyfryngau cymdeithasol ei wneud

119. Rydym am i'r cwmnïau digidol a chyfryngau cymdeithasol eu hunain wneud mwy er mwyn helpu i wella hyder mewn ymgyrchoedd digidol. Maent wedi dangos eisoes eu bod yn gallu helpu i gynnal cyfreithiau penodol mewn gwahanol wledydd. Er enghraifft, maent wedi datblygu adnoddau er mwyn helpu i sicrhau nad yw eu defnyddwyr yn torri cyfreithiau hawlfraint.

120. Maent hefyd wedi dangos ei bod hi'n bosibl cymryd camau gweithredu mewn perthynas â hysbysebion gwleidyddol. Ar gyfer yr etholiadau a gynhelir yn yr Unol Daleithiau yn hydref 2018, mae Facebook, Google a Twitter wedi dweud y byddant yn mynd ati i gadarnhau a yw ymgyrchwyr wedi'u lleoli yno. Ni chaniateir iddynt ymgyrchu os nad ydynt wedi'u lleoli yno. Rydym am iddynt wneud newidiadau tebygol i'w polisiau hysbysebu yn y DU. Byddai hyn yn helpu i wella cydymffurfiaeth â rheolau'r DU cyn i bleidleiswyr hyd yn oed weld hysbysebion ymgyrchu.

121. Aeth Facebook a Google ati i newid eu polisiau ar hysbysebion gwleidyddol cyn y refferendwm yn Iwerddon ym mis Mai 2018, gyda Facebook yn atal ymgyrchwyr o'r tu allan i Iwerddon rhag prynu hysbysebion refferendwm a Google yn gwahardd unrhyw hysbysebion yr oedd modd talu amdanynt mewn perthynas â'r refferendwm.

122. Cafodd y ddau gwmni eu beirniadu gan ymgyrchwyr a sylwebyddion am gyflwyno'r newidiadau hyn yn agos iawn at y diwrnod pleidleisio. Ni chynhaliwyd ymgyngoriad cyhoeddus ar eu cynlluniau cyn hynny.

123. Rydym am i gwmnïau digidol a chyfryngau cymdeithasol sicrhau bod eu polisiau ar hysbysebion gwleidyddol yn adlewyrchu ein rheolau ar ymgyrchoedd etholiadau a refferenda yn well. Gallai hyn gynnwys dileu hysbysebion neu ddeunydd ymgyrchu nad ydynt yn dangos yn glir pwy sy'n gyfrifol am eu hyrwyddo. Gallai gynnwys cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn rhoi gwybodaeth i ni am ymgyrchwyr y credwn eu bod wedi torri'r rheolau.

Gallent hefyd chwilio am ymgyrchwyr y credant eu bod wedi torri'r rheolau a rhoi gwybod i ni.





124. Rydym hefyd am sicrhau y gall pobl yn y DU ddisgwyl i bob cwmni sy'n gweithredu yma ymdrin â hysbysebion gwleidyddol yn yr un ffordd, yn hytrach na bod gan gwmnïau gwahanol bolisiâu unigol gwahanol. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt ymgynghori a gweithio'n agos gyda ni a chydag ymgyrchwyr yn y DU. Mae hefyd yn golygu y bydd angen i ni gadarnhau a yw cwmnïau newydd yn datblygu llwyfannau neu wefannau poblogaidd y bydd ymgyrchwyr yn dechrau eu defnyddio yn y DU yn y dyfodol.

125. Byddwn yn mynd ati i fonitro pa mor dda y mae cynigion gwirfoddol cwmnïau digidol a chyfryngau cymdeithasol yn gweithio yn yr etholiadau nesaf. Os nad yw'r cynigion yn gweithio'n dda, dylai llywodraethau a deddfwyr yn y DU ystyried rheoleiddio uniongyrchol.



**Argymhelliad 17: Dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol weithio gyda ni er mwyn gwella eu polisiau ar ddeunydd ymgyrchu a hysbysebion ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU.**

# Crynodeb o'r argymhellion

	Prif gyfrifoldeb
<h2>Pwy sy'n gyfrifol am ymgyrchoedd digidol?</h2>  <p>Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod yn rhaid i ddeunydd digidol gynnwys argraffnod sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am yr ymgyrch a phwy grëodd y deunydd.</p>	Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU
<h2>Gwariant ar weithgarwch ymgyrchu digidol</h2>  <p>Dylai fod yn ofynnol i ymgyrchwyr ddarparu anfonebau mwy manwl ac ystyrion gan eu cyflenwyr digidol er mwyn gwella tryloywder.</p>  <p>Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU newid y rheolau ar gyfer adrodd ar wariant. Dylent ei gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr is-rannu eu ffurflenni gwariant yn wahanol fathau o wariant. Dylai'r categorïau hyn roi mwy o wybodaeth am yr arian a gaiff ei wario ar ymgyrchoedd digidol.</p>  <p>Dylai hysbysebion ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU sy'n ymddangos ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gael eu labelu er mwyn dangos y ffynhonnell yn glir. Dylai eu cronfeydd data ar-lein o hysbysebion gwleidyddol gydymffurfio â'r rheolau ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU.</p>	<p>Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU os bydd angen</p> <p>Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU</p> <p>Cwmnïau cyfryngau cymdeithasol</p>



Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU newid y gyfraith fel bod costau staff sy'n gysylltiedig ag ymgyrch yn cael eu cynnwys yn y terfynau ar wariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol mewn etholiadau a refferenda.

Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU



Byddwn yn gwneud cynigion i ymgyrchwyr a phob un o lywodraethau'r DU ar sut i wella'r rheolau a'r terfynau amser ar gyfer adrodd ar wariant. Rydym am sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bleidleiswyr ac i ni yn gyflymach ar ôl ymgyrch, neu yn ystod ymgyrch.

Y Comisiwn Etholiadol, Ymgyrchwyr a rhanddeiliaid eraill  
Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU



Dylem ni a llywodraethau a deddfwrfeydd y DU ailystyried pryd y dylai'r rheolaethau ar wariant a chyllid ddod i rym cyn refferendwm.

Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU

## Pwy sy'n talu am ymgyrchoedd digidol?



Dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol roi rheolaethau newydd ar waith i gadarnhau bod pobl neu sefydliadau sydd am dalu i ddangos hysbysebion gwleidyddol am etholiadau a refferenda yn y DU wedi'u lleoli yn y DU neu wedi'u cofrestru i bleidleisio yma.

Cwmnïau cyfryngau cymdeithasol



Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU egluro na chaniateir i sefydliadau nac unigolion o dramor wario arian ar ymgyrchoedd etholiadau na refferenda. Byddai angen iddynt ystyried sut y gallai hyn gael ei orfodi a'r effaith ar ryddid barn.

Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU



Dylai Llywodraeth a Senedd y DU nodi'n glir mewn cyfraith na all ymgyrchwyr dderbyn arian gan gwmnïau nad ydynt wedi gwneud digon o arian yn y DU i ariannu swm eu rhodd neu fenthyciad.

Llywodraeth a Senedd y DU



Dylai Llywodraeth a Senedd y DU ystyried, ar y cyd â ni, sut y dylid gwella'r rheolaethau ar roddion a benthyciadau er mwyn atal arian tramor rhag cael ei ddefnyddio yng ngwleidyddiaeth y DU. Gellid addasu rheoliadau gwyngalchu arian diweddar er mwyn sicrhau dulliau gwell o asesu risg a diwydrwydd dyladwy.

Llywodraeth a Senedd y DU



Dylai Llywodraeth a Senedd y DU newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod yn rhaid i bob plaid ac ymgyrchydd refferendwm newydd sydd ag asedau neu rwymedigaethau gwerth mwy na £500 gyflwyno datganiad o asedau a rhwymedigaethau pan fydd yn cofrestru. Dylai'r datganiad gynnwys amcangyfrif o'r costau y mae'r ymgyrchydd wedi mynd iddynt wrth brynu neu ddatblygu'r data a ddelir ganddo pan fydd yn cofrestru.

Llywodraeth a Senedd y DU

## Gorfodi'r rheolau



Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU gynyddu'r pwerau sydd gennym i gael gafael ar wybodaeth y tu hwnt i ymchwiliad.

Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU



Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU gynyddu ein pwerau i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill pan fo hynny er budd y cyhoedd.

Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU



Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU gynyddu'r ddirwy uchaf y gallwn ei rhoi i ymgyrchwyr am dorri'r rheolau.

Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU



Dylai pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU roi pwerau i ni ymchwilio i ymgeiswyr yr amheuir eu bod wedi torri'r rheolau ar gyfer ymgeiswyr a rhoi cosbau iddynt.

Pob un o lywodraethau a deddfwrfeydd y DU



Dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol weithio gyda ni er mwyn gwella eu polisïau ar ddeunydd ymgyrchu a hysbysebion ar gyfer etholiadau a refferenda yn y DU.

Y Comisiwn Etholiadol a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol